**Brian Gibbons AC/AM**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Minister for Social Justice and Local Government**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref
MB/JD/0781/08

Mr Mike German AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

Hydref 2008

**TRAFODAETH FER YN Y CYNULLIAD (1/10/08) : "DYFODOL Y GWASANAETH CARCHARDAI YNG NGHYMRU"**

Erbyn hyn, gallaf ymateb i'r cwestiwn y gwnaethoch ei ofyn i mi yn ystod y drafodaeth uchod. Mae'r cwestiwn yn disgyn o fewn portffolio Jane Davidson sef y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae hi'n cytuno gyda'r cyngor hwn.

Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 17/98 "Cynllunio Datblygu Carchardai ar gyfer y Dyfodol" a gafodd ei anfon i awdurdodau cynllunio lleol Cymru yn Gylchlythyr sy'n dal mewn bodolaeth. Ar 7 Mehefin 2006, daeth deddfwriaeth sylfaenol newydd a gynhwyswyd yn Rhan 7 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i rym. Prif effaith y ddeddfwriaeth hon oedd rhoi'r Deddfau Cynllunio i'r Goron (sy'n cynnwys Adrannau'r Llywodraeth) ac sydd nawr, yn gyffredinol, yn gorfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu mewn dull tebyg i ymgeiswyr eraill. Gwnaed rhai trefniadau arbennig ac roeddent yn ymwneud yn bennaf â materion fel diogelwch cenedlaethol ac amddiffyn, argyfyngau a gorfodi, yn ogystal â hawliau datblygu newydd sy'n cael eu caniatáu a dosbarthiadau defnydd.

Mae paragraffau 83-85 o'r memorandwm "Y Goron yn Defnyddio'r Deddfau Cynllunio" sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig canllawiau ar y polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar ddosbarth defnydd C2A, "Sefydliadau preswyl diogel". Mae'r dosbarth defnydd hwn yn cynnwys "defnyddio fel carchar" felly mae'n bosibl i'r canllawiau hyn fod yn berthnasol wrth ddatblygu carchar newydd hefyd. Cafodd y memorandwm ei gynnwys mewn llythyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 7 Mehefin 2006 gyda'r un teitl a gafodd ei anfon at Brif Swyddogion Cynllunio a Swyddogion Parciau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r polisi cenedlaethol, fel y'i hamlinellir yn Atodiad A o 'Gynlluniau Datblygu Lleol Cymru', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan y dylai unrhyw awdurdod gysylltu ag adrannau o Lywodraeth y DU os oes agweddau ar y cynllun, neu gynigion i'w ddiwygio neu i'w newid yn effeithio ar eu buddiannau hwy. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cael ei rhestru fel un sefydliad y gellir ymgynghori ag ef a dylid ymgynghori â'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8522
Correspondence.Brian.Gibbons@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

sefydliad ynghylch polisïau sy'n ymwneud â charchardai, (mae'r cyfrifoldebau hynny wedi cael eu rhoi i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder).

Yn gywir

**Brian Gibbons AC**